



## **Astudiaeth Achos Cymunedau am Waith a Mwy**

### **Mentor Cyflogaeth Gymunedol – Lucy Sparkes Chwefror 2021**

#### **Mae'r astudiaeth achos yma'n dangos y gwaith partneriaeth effeithiol rhwng rhaglenni CaW+ a Gwaddol.**

Daeth DB at raglen CaW+ yn wreiddiol am gefnogaeth i wneud cais am swydd yr oeddem ni'n ei hysbysebu ar dudalen Facebook y Cynllun @cfwplustorfaen. Trwy drafodaeth gyda Swyddog Brysbennu CaW, esboniodd DB sut y bu iddi golli ei gwaith ym Mawrth 2020. Ers hynny mae hi wedi bod yn hawlio Credyd Cynhwysol ac yn cael trafferth pob mis – gan fyw i'r geiniog.

Fel y Mentor a bennwyd, cysylltais â DB a thrafod ei hamgylchiadau ymhellach. Cyn hir fe benderfynon ni ar ffordd ymlaen ar gyfer ei chynllun gwaith ac esboniais fy nghefnogaeth yn y broses. Gan fyw ar ei phen ei hun a gyda rhent yn llyncu'r rhan fwyaf o'i hincwm, roedd DB mewn trafferthion ariannol. Trafodais atgyfeiriad at y tîm Argyfwng/Cynhwysiant Ariannol ac roedd DB yn ddiolchgar fod rhywun yn gwrandao ac yn gallu rhoi cyngor ar yr hyn allai hi wneud yn wahanol i'w helpu i reoli ei harian yn well. Trafodon ni ei CV hefyd a'r gefnogaeth y buaswn yn rhoi iddi wrth helpu i ddiweddarau a chreu ar y cyfrifiadur yn hytrach na'r sgrinlun yr oedd hi'n ei ddefnyddio.

Digwyddodd un cyfle trafodon ni trwy ein Swyddog Cyswllt Cyflogwyr, Richard Murphy a oedd wedi datblygu perthynas effeithiol gyda'r siop B&Q lleol ac a oedd yn cefnogi'r rheolwr gyda recriwtio. Roedd DB yn fodlon i'w CV gael ei ddanfôn ymlaen ar gyfer ystyriaeth ac roedd hi'n hynod falch fod y cyfleoedd yma wedi eu canfod mor gyflym.

Ychydig ddyddiau wedyn, cafodd DB alwad ffôn yn ei gwahodd i gyfweiliad. Ffoniodd DB fi i roi gwybod, ac roedd hi wrth ei bodd! Fe wnaethom ni gwblhau paratodau cyfweiliad gyda'n gilydd dros y ffôn, gan siarad trwy'r ymchwil i mewn i'r cwmni a chwestiynau posibl a allai gael eu gofyn.

Cafodd DB gyfweiliad llwyddiannus a chafodd gynnig y swydd! Dywedodd B&Q wrthi ei bod yn ddelfrydol am y swydd, gyda gwybodaeth dda o fanwerthu ac roedden nhw'n credu y byddai hi'n gweddu'n union i'r tîm. Serch hynny, gan fod y swydd yn ddim ond 20 awr, trafodon ni'r budd-daliadau posibl y gallai hi gael ar ben ei chyflog. Gyda chytundeb DB, gwnes atgyfeiriad arall at ein prosiect Cynhwysiant Ariannol a wnaeth apwyntiad gyda Chyngor ar Bopeth i gefnogi DB gyda'r cyngor yr oedd hi ei angen a'r dewisiadau oedd ar gael iddi.

Ar ôl yr apwyntiad gyda Chyngor ar Bopeth, siaradon ni eto a chadarnhawyd y byddai DB yn well ei byd yn ariannol pob wythnos wrth weithio 20 awr, sef y newyddion yr oeddem ni am glywed! Roedd hyn yn rhywbeth pwysig i'w gadarnhau cyn derbyn y swydd, i sicrhau y byddai DB yn sefydlog yn ariannol. Unwaith iddi ganfod y byddai hi'n well ei byd yn ariannol, derbyniodd DB y swydd!

Cysylltais â DB wythnos ar ôl iddi gychwyn yn y gwaith i weld sut oedd hi'n setlo yn y swydd ac esboniodd DB ei bod yn poeni bod arian yn brin oherwydd bod rhaid iddi aros mis tan iddi dderbyn ei chyflog cyntaf. Esboniais y buaswn yn edrych i mewn i hyn i weld pa gymorth gallem ei gynnig. Gyda chyngor y tîm Cymorth Ariannol, trefnon ni barsel bwyd i DB. Rhoddais help i DB hefyd gwblhau cais i'r Gronfa Cymorth Dewisol gan fod DB yn poeni am ei biliau ynni. Derbyniwyd y taliad yma ychydig ddyddiau wedyn, Eto, roedd DB yn ddiolchgar a disgrifiodd y gefnogaeth fel pwysau'n codi oddi ar ei hysgwyddau.

Dyfyniad y cyfranogwr:

*"Mae Lucy wedi bod yn anhygoel gyda fi ar ôl bron wyth mis o chwilio am waith. Roeddwn i ond wedi bod gyda Lucy am fis pan gafodd hi gyfweiliad i mi ac fe ges i'r swydd. Hefyd, roedd hi bob amser yn cysylltu i weld a oeddwn i'n iawn. Llwyddodd Lucy hefyd i gael taliad nwy i fi oherwydd fy mod i mewn trafferthion gan fod arian yn brin, a pharsel bwyd hefyd o fanc bwyd. Dyma'r unig berson a oedd fel petai hi'n mynd allan o'i ffordd i helpu - diolch yn fawr iawn am bob peth yr ydych wedi ei wneud i fi....mae'n hyfryd gweld rhywun sydd mor angerddol am ei swydd a phobl eraill".*